SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #21 SCHTh Gogledd Cymru – 02 Mehefin 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #21 – 02 June 2023**

## CHTh yn gwobrwyo'r arwyr am wneud gwahaniaeth ar draws gogledd Cymru

Cynhaliwyd Seremoni Gwobrau Cymunedol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar ddydd Iau, 1 Mehefin, er mwyn dathlu'r bobl yn ein cymunedau ledled y rhanbarth sy'n gwasanaethu eu cymunedau ac yn cefnogi'r heddlu yn eu gwaith.

Bu'r digwyddiad yn y Quay Hotel and Spa yn Neganwy a gwelwyd dros 100 o westeion yn dod at ei gilydd. Yn eu plith roedd aelodau o'r cyhoedd, yr heddlu, y gwasanaethau brys, gwleidyddion lleol a chenedlaethol, elusennau a'r trydydd sector ehangach yng Ngogledd Cymru.

Mae'r gwobrau yn cydnabod yr arwyr lleol sy'n aml yn ddisylw sy'n gweithio yn y cefndir er mwyn cynorthwyo dioddefwyr, adsefydlu a lleihau tebygolrwydd ac effaith trosedd ledled y rhanbarth. Dewiswyd yr enillwyr gan swyddogion heddlu, staff a gwirfoddolwyr o Heddlu Gogledd Cymru. [Darllenwch fwy yma.]



## PCC awards community heroes making a difference across North Wales

The North Wales Police and Crime Commissioner's Community Awards Ceremony took place on Thursday, June 1 to celebrate the people in our communities across the region who help serve their communities and support the police in their work.

The event took place at the Quay Hotel and Spa in Deganwy and saw over 100 guests come together from across the general public, police, emergency services, local and national politics, charities, and the wider third sector in North Wales.

The awards recognise the often-unsung local heroes who work in the background to support victims, support rehabilitation and reduce the likelihood and impact of crime across the region. The nomination process saw police officers, staff, and volunteers from North Wales Police put forward suggestions of people they have worked with in the community as winners. **Read more here.**

---

## Digwyddiad yn taflu goleuni ar Gaethwasiaeth yng Ngogledd Cymru a sut i'w drechu

Mewn cynhadledd a gynhaliwyd ar 22 Mai yng Nghyffordd Llandudno, daeth 100 o berchnogion busnes lleol a sefydliadau sector cyhoeddus ledled Gogledd Cymru at ei gilydd er mwyn edrych ar y broblem hanfodol sef Caethwasiaeth Fodern. Edrychwyd ar sut i ddeall ei hadnabod hi a thrafod y peryglon mae'n ei beri i'r economi leol.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn fygythiad parhaus i gymunedau yng Ngogledd Cymru a rhaid i fusnesau fod yn ymwybodol o sut y gall gael effaith arnynt a sut i adnabod yr arwyddion. Cafodd y gynhadledd am ddim yng Nghanolfan Fusnes Conwy ei threfnu gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) Gogledd Cymru ac fe gafwyd gair o groeso a chyflwyniad gan y Comisiynydd sef Andy Dunbobbin a'i Ddirprwy sef Wayne Jones.

Roedd siaradwyr amlwg iawn wedi dod o ledled y rhanbarth a'r DU. **Darllenwch fwy yma.**



## Event shines light on Modern Slavery in North Wales and how to combat it

At an event held on 22 May in Llandudno Junction, nearly 100 local business owners and public sector organisations from right across North Wales came together to look at the crucial issue of Modern Slavery, to understand how to identify it and discuss the risks it poses to the local economy.

Modern Slavery is a continuing threat to communities in North Wales and businesses need to be aware of how it can impact, and how to spot the signs. The free conference at Conwy Business Centre was organised by the Office of the Police and Crime Commissioner (OPCC) for North Wales and opened with a welcome and introduction from Police and Crime Commissioner for North Wales Andy Dunbobbin and Deputy Police and Crime Commissioner Wayne Jones.

High-profile speakers were drawn from across the region and the wider UK. Read more here.

---

## Digwyddiad yng Nghaernarfon yn edrych ar sut i gadw ffermydd yn ddiogel

Nos Wener, Mai 19 daeth ffermwyr a'u teuluoedd o bob rhan o ogledd-orllewin Cymru at ei gilydd yng Ngwesty'r Celtic Royal yng Nghaernarfon ar gyfer digwyddiad yn edrych ar ffyrdd y gall ein cymunedau gwledig amddiffyn eu hunain yn well rhag trosedd, yn ogystal â mesurau newydd hollbwysig gan Heddlu Gogledd Cymru i frwydro yn erbyn gweithgarwch troseddol ar draws y rhanbarth.

Noddwyd y digwyddiad Seibr Ddiogelwch ac Atal Troseddu gan yr elusen i ffermwyr a'u teuluoedd, Tir Dewi; Heddlu Gogledd Cymru; Ymddiriedolaeth Heddlu a Chymuned Gogledd Cymru; a SCHTh Gogledd Cymru. Darllenwch fwy yma.

---




## Caernarfon event looks at how to keep farms out of harm’s way

The evening of Friday, May 19 saw farmers and their families from across North-West Wales come together at the Celtic Royal Hotel in Caernarfon for an event looking at ways our rural communities can better protect themselves from crime, as well as crucial new measures being undertaken by North Wales Police to combat criminal activity across the region.

The Cyber Safety and Crime Prevention event was sponsored by the charity for farmers and their families, Tir Dewi; North Wales Police; the North Wales Police and Community Trust; and the O**PCC** North Wales. **Read more here.**

---

## Wythnos Gwirfoddolwyr 2023

Mae ymgyrch genedlaethol Wythnos Gwirfoddolwyr yn cael ei chynnal rhwng 1 a 7 Mehefin, er mwyn dathlu cyfraniad pobl i wirfoddoli yn eu cymunedau.

Byddwn yn diolch i’n Hymwelwyr Dalfeydd Annibynnol, sy’n ymweld â dalfeydd yn ddirybudd er mwyn gwirio lles a hawliau carcharorion – cadwch lygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd â dolenni isod am ddiweddariadau pellach:

LinkedIn | Facebook | Twitter




## Volunteers’ Week 2023

The national Volunteers’ Week campaign takes place from June 1 to 7, celebrating the contribution people make in volunteering in their communities.

We are paying our thanks to our Independent Custody Visitors, who make unannounced visits to custody suites to check on detainees’ welfare and rights - keep an eye on our social media channels linked below for further updates:

LinkedIn | Facebook | Twitter

---

## Swydd wag: Prentis o Gynorthwyydd Gweinyddwr

**Yn y SCHTh, mae gennym gyfle gwych i Brentis o** Gynorthwyydd Gweinyddwr er mwyn cael dealltwriaeth gadarn o weinyddu busnes a gwasanaeth cwsmeriaid. Bydd y Swyddfa yn cyflogi yr ymgeisydd penodedig ar gytundeb tymor sefydlog am 2 flynedd a chael sylfaen gadarn mewn gweinyddu busnes wrth weithio tuag at gwblhau NVQ Lefel 2.

**Darllenwch fwy a gwnewch gais yma.**

Dyddiad cau: 13/06/23

---




## Job vacancy: Apprentice Administrator Assistant

At the OPCC we have a great opportunity for an Apprentice Administrator Assistant to obtain a solid understanding of business administration and customer services. The Office will employ the candidate on a 2 year fixed term contract with a dedicated mentor, benefiting from gaining a solid grounding in business administration whilst working towards completing an NVQ Level 2,

**Read more and apply here.**

Closing date:  13/06/23

---

## Erthyglau allweddol o’r cyfryngau | Key articles from across the media

- North Wales Chronicle: Police and crime commissioner hails Bangor drop in session 'a success' | North Wales Chronicle *(Erthygl Saesneg)*
- Wales Farmer: North Wales farms get advice on keeping rural crime at bay | Wales Farmer *(Erthygl Saesneg)*
- Deeside.com: North Wales Police performance under review at Commissioner scrutiny meeting | (deeside.com) *(Erthygl Saesneg)*

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy  LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy  LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy